**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee inquiry into the general principles of the Tertiary Education and Research (Wales) Bill**

**TER 11**
**Ymateb gan: Estyn**
**Response from: Estyn**

---

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

Croesawom ni'r cyfle i ddarparu tystiolaeth fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar egwyddorion cyffredinol **Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)** ('y Bil'). Mae'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu'r dystiolaeth a ddarparwyd gennym yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 9 Rhagfyr 2021.

At ei gilydd, rydym yn croesawu'r newidiadau a wnaed i'r Bil drafft. Mae llawer o'r awgrymiadau ar gyfer gwella a wnaethom fel rhan o'r ymgynghoriad cychwynnol ar y Bil wedi cael eu rhoi ar waith.

Yn benodol, rydym yn croesawu eglurder y dyletswyddau statudol ar gyfer y Comisiwn yn rhan 1 y Bil fel y'u cyflwynwyd. Mae'r dyletswyddau ar gyfer hyrwyddo gwelliant parhaus a chydweithio yn rhai rydym yn eu cefnogi'n gryf. Fodd bynnag, er bod y dyletswyddau hyn wedi cael eu hychwanegu at Ran 1 y Bil, nid yw rhannau eraill o'r Bil wedi cael eu cysylltu'n glir yn ôl at gyfeirio at y dyletswyddau strategol hyn. Er enghraifft, yn Rhan 2, pennod 2, byddai'n helpu pe bai'r teitl ar gyfer yr adran ar sicrhau ansawdd yn cyfeirio'n uniongyrchol at "Sicrhau ansawdd a gwella ansawdd i gefnogi'r ddyletswydd strategol i hyrwyddo gwelliant parhaus'.

Cyflwynom ymateb manwl i'r ymgynghoriad ar y Bil Drafft ym mis Rhagfyr 2020. Yn yr ymateb hwnnw, amlinellom ni ein barn gyffredinol fod gan sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil y potensial i wella cydlyniant mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, yn enwedig o ran y cysylltiad rhwng addysg uwch ac addysg bellach, ond bod angen mwy o eglurder am y meddylfryd polisi yn gysylltiedig â'r ystod oedran addysg a hyfforddiant 16-19. Er bod ychwanegu dyletswydd strategol i hyrwyddo cydweithio a chydlyniant i'w groesawu, nid yw'n glir o hyd sut bydd y Comisiwn yn gwneud hyn yn ofynnol i sicrhau ei fod yn digwydd. A oes ffocws digon cryf wedi'i gynnwys i fynnu mwy o gydweithio rhwng darparwyr a chyrff eraill? Mae ein hadroddiad thematig diweddar yn nodi heriau presennol ac yn rhoi argymhellion yn gysylltiedig â chydweithio rhwng ysgolion a cholegau.

O ran y rhesymeg ar gyfer creu'r Comisiwn, nid yw'r systemau presennol yn gyrru'r newidiadau sydd eu hangen. Mae'n bwysig fod y sefydliad newydd yn chwalu'r rhwystrau presennol rhwng gwahanol sectorau a modelau cydweithio a chydlyniant. Mae'n hanfodol creu'r diwylliant cywir o welliant parhaus, ymddiriedaeth a pharch. Gallai hyn fod yn fwy heriol o fewn y raddfa amser i greu'r Comisiwn. Bydd yn bwysig creu'r diwylliant hwn ar gyfer sefydliad newydd, a pheidio â pharhau â hen ymddygiadau o systemau / sefydliadau blaenorol.

O ran dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig dysgwyr â llawer o anghenion, teimlwn nad yw'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn glir am rôl y Comisiwn o ran ariannu'r dysgwyr hyn i gael darpariaeth briodol. Byddai'n fuddiol cael eglurhad ynglŷn â pham neu sut y gellid ariannu dysgwyr â llawer o anghenion yn wahanol, yn ôl y math o ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt, ac y gallai ansawdd eu profiadau fod yn wahanol, yn ôl pa ddarparwr maent yn ei fynychu. Er enghraifft,

byddai'n fuddiol ystyried sut bydd disgwyliadau ansawdd cyson yn cael eu gosod ar gyfer darparwyr ar y rhestr gymeradwy o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol a gynhelir gan Weinidogion Cymru, ac ar gyfer darparwyr addysg drydyddol sy'n darparu cyrsiau perthnasol fel medrau byw yn annibynnol. Byddai hyn yn cefnogi awdurdodau lleol i gomisiynu darpariaeth ADY ar gyfer dysgwyr sydd â llawer o anghenion.

Yn sgil y Cwricwlwm i Gymru a'r Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu, a oes ffocws digon cryf yn y Bil fel y'i cyflwynwyd ar les a nodau'r pedwar diben i ddatblygu pobl ifanc i fod yn oedolion medrus, o ran cyfnod pontio effeithiol ar gyfer dysgwyr o addysg orfodol i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

Rydym yn croesawu'r diwygiad yn y Bil i gynnwys dosbarthiadau chweched yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. I sicrhau bod y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn gynhwysol, bydd angen i'r cod gydnabod ac ystyried gwahaniaethau o ran aeddfedrwydd, annibyniaeth a medrau cyfathrebu dysgwyr cyn 18, ac ar ôl 18, yn cynnwys y rhai ag ADY, anawsterau cyfathrebu a'r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae'r cod yn ymgorffori pwysigrwydd rhoi llais i bob dysgwr, felly bydd yn bwysig fod y Comisiwn a darparwyr yn ystyried natur eang iawn yr holl ddysgwyr yn y sectorau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, ac nad yw llais dysgwyr yn unffurf.

Credwn fod ffocws da ar y dysgwr trwy ychwanegu'r dyletswyddau strategol ar ddechrau'r Bil – gan hyrwyddo ffocws ar y dysgwr trwy'r hawl i ddysgu gydol oes, ffocws ar gyfle cyfartal, cyfranogi, a gwelliant parhaus. Yn sgil cael cylch gwaith ar draws addysg drydyddol, bydd angen i'r Comisiwn weithio'n galed i sicrhau bod y grwpiau hynny o ddysgwyr na chynrychiolir yn ddigonol yn cael eu clywed.

Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r diwygiadau i'r Bil Drafft sy'n ymddangos yn y Bil, fel y'i cyflwynwyd. Rydym yn cytuno â'r diwygiad i Ran 3, adran 91 y Bil, fel y'i cyflwynwyd i fynnu bod y Comisiwn yn sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu yng Nghymru ar gyfer addysg a hyfforddiant perthnasol i bobl gymwys dros 19 mlwydd oed sy'n addas i'w gofynion. Bydd hyn yn cefnogi'r ymrwymiadau i ddysgu gydol oes a nodwyd yn y Rhaglen ar gyfer Llywodraeth.

Rydym yn croesawu'r darpariaethau fel yr amlinellir ym Mhennod 2 y Bil, fel y'u cyflwynwyd ar gyfer y Prif Arolygydd i gadw pwerau statudol ar gyfer addysg a hyfforddiant yn y sector ôl-16.

Mae sawl rheoliad sy'n berthnasol i rôl Estyn. Ym mhob achos, mae'r weithdrefn arfaethedig ar gyfer cymeradwyo'r rheoliadau gan y Senedd yn 'negyddol'. Mae'r rheoliadau hyn, yn gyffredinol, yn caniatáu hyblygrwydd defnyddiol. Rydym yn cytuno mai dyma'r weithdrefn briodol ar gyfer y rheoliadau a gynigir yn yr adrannau hyn. Teimlwn fod bwlch yn ein gwaith arolygu presennol i gefnogi'r gweithlu addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae gennym bwerau i arolygu hyfforddi'r gweithlu ar gyfer addysg gychwynnol mewn dosbarthiadau chweched ac ar gyfer hyfforddiant gweithwyr ieuenctid a chymuned. O ran rheoliadau o dan adran 59 (2), 'caiff y rhain gynnwys swyddogaethau arolygu sy'n ymwneud â hyfforddiant ar gyfer athrawon, darlithwyr, hyfforddwyr neu eraill sy'n darparu'r addysg honno neu'r hyfforddiant hwnnw'. Byddai hyn yn sicrhau bod hyfforddi'r gweithlu yn cael

ei oruchwylio a'i sicrhau yn fwy cydlynus ar draws pob un o'r sectorau rydym yn eu harolygu.

Nid yw'r Bil yn gwahaniaethu rhwng yr hyn y cyfeiriwyd ato yn draddodiadol fel addysg uwch benodedig a'r agweddau hynny ar y ddarpariaeth uwchlaw lefel 3 nad ydynt yn dod o dan y diffiniad o ddarpariaeth addysg uwch benodedig, sy'n cael ei hadnabod yn gyffredinol fel 'addysg uwch nad yw'n benodedig', fel cymwysterau technegol lefel uwch mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith ar lefelau 4 a 5. Ar hyn o bryd, rydym yn arolygu prentisiaethau ar y lefelau hyn yn ystod arolygiadau craidd o ddarparwyr hyfforddiant dysgu yn y gwaith, a chynhaliom adolygiad thematig yn 2018 ar ansawdd prentisiaethau uwch yng Nghymru. Defnyddiom ein canfyddiadau o'r adroddiad thematig hwn i lywio sicrhau ansawdd y prentisiaethau gradd peilot. Mae ein AEM a'n harolygwyr cymheiriaid yn brofiadol mewn arolygu darparwyr sy'n cynnig prentisiaethau yn y cymwysterau galwedigaethol technegol ar lefelau 4 a 5. Rydym wedi arolygu darpariaeth HNC a HND yn ystod arolygiadau colegau addysg bellach hefyd.

Hefyd, gellid diffinio'r cyfrifoldeb am arolygu neu adolygu prentisiaethau gradd yn glir trwy ddeddfwriaeth uwchradd, o dan adran 55 (1). Mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd yn briodol, yn gadael y posibilrwydd yn agored i egluro'r cyfrifoldebau hyn yn y dyfodol, yn cynnwys Estyn. Byddai hyn yn sicrhau bod trefniadau arolygu ar gyfer prentisiaethau yn darparu dull integredig a chysylltiedig ar gyfer sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yr holl ddarpariaeth prentisiaethau dysgu yn y gwaith ar ba lefel bynnag. Fel rhan o drefniadau o'r fath, gallai Estyn gydweithio â'r corff ansawdd dynodedig ar gyfer addysg uwch, ble gellid cyfuno arbenigedd corff ansawdd, fel yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) o ran adolygu cynnwys addysg uwch rhaglenni prentisiaethau gradd, gyda phrofiad Estyn o arolygu prentisiaethau uwch yn y gweithle.

Yn ein hymateb gwreiddiol i'r ymgynghoriad i'r Bil Drafft (C8), nodom ein bod yn defnyddio'r termau 'annog' a 'rhesymol' ynghylch dyletswydd strategol y Comisiwn i hyrwyddo addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg (Adran 8 y Bil, fel y'i cyflwynwyd). I osgoi amwysedd, byddai'n gliriach ac yn rhoi ffocws mwy strategol i ddatgan bod gan y Comisiwn ddyletswyddau i sicrhau bod darpariaeth ddigonol trwy gyfrwng y Gymraeg a dileu unrhyw gyfeiriadau at 'rhesymol', sy'n agored i ddehongliad unigol neu sefydliadol. Yn yr un modd, byddai'n gliriach defnyddio'r gair 'gofyn' yn lle 'annog' yn Adran 8 (c) y Bil, a gosod dyletswydd statudol ar y Comisiwn i gyflawni'r nodau hyn.

Mae Estyn yn gorff y Goron ac yn adran gwasanaeth sifil anweinidogol, ac o'r herwydd, mae'n rhan o gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru. Byddai'n well gennym fod y cyllid ar gyfer ein gwaith statudol yn dod i ni yn ganolog fel un dyraniad, yn hytrach nag yn rhannol trwy'r Comisiwn, sef corff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddem yn croesawu bod mecanwaith ar waith hefyd i alluogi'r Comisiwn i'n hariannu'n uniongyrchol am waith ychwanegol penodol yn ystod blwyddyn y gallai ei nodi o ran ei gylch gwaith. Mae gennym y mecanwaith hwn ar hyn o bryd gydag adrannau unigol Llywodraeth Cymru ble maent yn rhoi cyllid grant i ni at ddibenion penodol. Efallai y bydd modd cyflawni dyraniad craidd canolog, sy'n cynnwys cyllid gan y Comisiwn a Gweinidogion Cymru a threfniadau i sicrhau nad yw mecanweithiau cyllid yn peryglu ein

hannibyniaeth, heb wneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Er enghraifft, daw ein cyllid presennol o adran heblaw'r adrannau addysg neu ddysgu gydol oes a medrau, ac mae ein swyddog cyfrifyddu ychwanegol o'r tu allan i'r adrannau hyn, yn yr un modd. Gellid ymestyn y trefniadau hyn i gynnwys y Comisiwn, o bosibl.

Byddai angen memorandwm dealltwriaeth clir neu ddogfennau tebyg i bennu ystod gwaith ôl-16 Estyn ar gyfer y Comisiwn, a'r hyn sydd ei angen ar Weinidogion Cymru ar gyfer y ddarpariaeth a sectorau y tu allan i oruchwyliaeth y Comisiwn – er enghraifft, trwy ddau lythyr cylch gwaith a chyfarfodydd panel ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru, Estyn a'r Comisiwn i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer cyngor ac arweiniad Estyn i'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru.

Mae ein cwmpas o ran arolygu a rhoi cyngor i lunwyr polisi yn eang ac yn cwmpasu'r holl ddarpariaeth addysg a hyfforddiant a ariennir yng Nghymru, heblaw'r ddarpariaeth sy'n cael ei hariannu a'i rheoleiddio trwy CCAUC. Mae Estyn yn llais annibynnol awdurdodol. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth, a byddwn yn annibynnol ar y Comisiwn, sy'n hanfodol er mwyn i ni allu arolygu ac adrodd ar gyflwr addysg a hyfforddiant yng Nghymru heb ofn na ffafriaeth i roi sicrwydd i'r cyhoedd, a hyrwyddo gwelliant. Mae gennym seilwaith sefydledig ac effeithiol i gyflwyno arolygiadau a sicrhau ansawdd o ansawdd da. Mae gennym gryfder dwfn, ac yn ein carfan o AEM, gallwn ddefnyddio ystod unigryw o fedrau ac arbenigedd, y byddai pob un ohonynt ar gael i gefnogi'r sector trydyddol wrth symud ymlaen.

Ar hyn o bryd, mae yna sectorau addysg a hyfforddiant ôl-16 sydd y tu allan i gwmpas goruchwylio'r Comisiwn yr ydym yn eu harolygu ac yn rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd, felly byddai ariannu ein gwaith yn ganolog yn fwy cydlynus. Bydd yn bwysig cydnabod gwerth arolygu a chyngor annibynnol mewn unrhyw fframwaith ansawdd i gefnogi'r Comisiwn yn ei rôl monitro ansawdd.

Yn ogystal â meysydd darpariaeth ôl-16 a fydd yn dod o dan gylch gwaith y Comisiwn, rydym hefyd yn arolygu agweddau eraill ar addysg a hyfforddiant ôl-16, fel colegau arbenigol annibynnol, dysgu yn y sector cyfiawnder, cyflogadwyedd a medrau (hyfforddeiaethau ac wedyn symud i'r rhaglenni Twf Swyddi Cymru+), Cymraeg i Oedolion, gwasanaethau gyrfaoedd ac addysg gychwynnol athrawon i ysgolion. Trwy ein cysylltiadau â'r sectorau hyn, mae gennym rôl bwysig i feithrin capasiti yn y sectorau hyn, gan allu rhannu a hyrwyddo arfer dda ar draws y sector ôl-16 ehangach yng Nghymru. Bydd yn bwysig ystyried p'un a ddylai unrhyw un o'r sectorau ôl-16 eraill hyn ddod o dan gylch gwaith y Comisiwn hefyd.

Rydym wedi ymrwymo i gydweithio ac yn cydnabod y byddai angen cyfathrebu a chyswllt cryf yn y berthynas â'r Comisiwn, ond nid yw hyn yn destun pryder. Mae gennym berthnasoedd gweithio cryf eisoes â Llywodraeth Cymru, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) a CCAUC, ac rydym wedi dechrau datblygu dulliau ar y cyd o ran agweddau ar ansawdd ar draws meysydd addysg bellach ac uwch a hyfforddiant. Credwn fod y darpariaethau yn y Bil yn adeiladu ar y cryfderau presennol mewn sicrhau ansawdd ymysg ein hunain, ac ar draws yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, ac yn adlewyrchu'r angen am ddulliau teilwredig ar draws y sector trydyddol. Mae cryfder mewn amrywiaeth ac mae'r dull yn adlewyrchu hynny. Nid yw cyson yr un fath ag unffurf.

Mae gennym berthnasoedd cynhyrchiol cryf â'r sectorau rydym yn eu harolygu hefyd. Nid oes rheswm i dybio y byddai ansawdd y rhain yn wahanol mewn unrhyw ffordd i'r Comisiwn. Mae gennym draddodiad hir o nodi a hyrwyddo arfer orau trwy ein hadolygiadau thematig, astudiaethau achos a chynadleddau.

Os hoffai'r Pwyllgor gael dealltwriaeth well o'n hymagweddau presennol at arolygu, nodi a hyrwyddo arfer orau trwy ein hadolygiadau thematig, astudiaethau achos a chynadleddau, gallwn ni ddarparu hyn.

Dros gyfnod, rydym wedi mireinio ein modelau arolygu i sicrhau gwerth am arian. Mae gennym eisoes gangen arolygu lawn, a gefnogir gan dîm gwasanaethau corfforaethol sefydledig ac effeithlon. Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol wrth sefydlu seilwaith newydd i gefnogi ein gwaith.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda grŵp cyfeirio i ystyried diwygiadau i'n trefniadau arolygu cyn ailddechrau arolygiadau yn nhymor y gwanwyn. Bydd llawer o agweddau pwysig ar sut rydym yn gwneud ein gwaith yn aros yr un fath – er enghraifft:

- ein rhaglen arolygwyr cymheiriaid
- ymgysylltu â dysgwyr trwy holiaduron ac ystod eang o ryngweithiadau â dysgwyr yn ystod arolygiadau
- hyfforddi a defnyddio myfyrwyr arolygu yn ystod arolygiadau colegau addysg bellach